Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Llanberis a Nant Peris**
**Y Ganolfan**
**Llanberis**
**Gwynedd**
**LL55 4NT**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llanberis a Nant Peris yn lleoliad ym mhentref Llanberis, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n cyfarfod yn 'Y Ganolfan' ar gyrion y pentref. Mae'r lleoliad ar agor am bedwar dydd yr wythnos. Mae gan y lleoliad tri aelod o staff.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 16 o blant. Mae'n derbyn plant rhwng dwy a hanner a thair oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd 12 o blant yn mynychu, naw ohonynt wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae'r holl blant o darddiad gwyn Prydeinig. Mae llawer o blant yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd er Tachwedd 2004. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Rhagfyr 2014 a chan Estyn yn Chwefror 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- cynnydd a chyflawniad da gan y plant;
- agweddau positif y plant tuag at ddysgu;
- y profiadau dysgu sy'n cael eu cynllunio'n dda;
- y gefnogaeth dda a chwricwlwm cytbwys a diddorol;
- yr addysgu effeithiol;
- yr adnoddau da, heblaw am dechnoleg gwybodaeth;
- y defnydd pwrpasol o'r Gymraeg, sy'n cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith; a'r
- berthynas dda rhwng oedolion a phlant.

### Rhagolygon gwella

Er bod y pwyllgor rheoli yn newydd iawn, mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- y ddarpariaeth a chyfeiriad clir i waith y lleoliad gan yr arweinydd a'r staff;
- y systemau hunanarfarnu effeithiol sy'n cyfatebu'n briodol i dargedau'r cynllun datblygu;
- yr agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff; a'r
- defnydd effeithiol o linellau cymorth.

## Argymhellion

A1 Ymestyn y ddarpariaeth a’r defnydd o gyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Cwblhau asesiadau cyson i gofnodi cynnydd plant o’u mannau cychwyn

A3 Datblygu a chyfoethogi’r adnoddau a’r profiadau yn yr ardal allanol

A4 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwneud gwelliannau cadarnhaol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae bron pob un plentyn yn trafod syniadau gyda phlant eraill ac oedolion yn hyderus ac maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd wrth drafod stori ar ddechrau sesiwn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn trafod lliwiau'n synhwyrol wrth ddefnyddio sialc a phaent. Maent hefyd yn siarad yn hyderus a chywir am gyfarpar sydd angen i baratoi teisen. Mae unigolion yn cynnig awgrymiadau synhwyrol i'r oedolion wrth iddynt gymryd rôl cyfrifol mewn grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn eistedd yn dawel wrth wrando ar gyflwyniad i dasg. Maent yn ymuno'n frwdfrydig wrth drafod y storïau yma neu wrth ganu caneuon a hwiangerddi. Mae llawer yn awyddus i ateb cwestiynau am yr hyn y maent yn eu gwneud. Mae'r mwyafrif o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol ac mae'r plant yma yn dal llyfrau yn gywir a thrafod y cynnwys yn ystyrlon gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy wneud marciau a pheintio. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddiben ysgrifennu ac maent yn trafod pwrpas gwneud marciau'n ystyrlon. Mae ychydig iawn o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau gyda chymorth mewn ffurfiau eithaf adnabyddus, wrth drafod pensiliau a chreonau.

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif i ddeg yn hyderus ac mae lleiafrif y plant yn adnabod ac enwi rhifau i bump yn gywir. Mae tua hanner ohonynt yn defnyddio ystod dda o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio teganau a gwrthrychau fel 'bach' a 'mawr', 'trwm' ac 'ysgafn', wrth chwarae â thoes a phwyso ffrwythau. Maent hefyd yn defnyddio rhifau'n ymarferol a llwyddiannus wrth drafod 'llai na' a 'fwy na', 'uchel ac 'isel', ac wrth gymharu siapiau dau a thri dimensiwn sy'n fflat neu'n rownd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir. Maent yn defnyddio arian yn yr ystyr iawn wrth brynu ffrwythau gwahanol yn y siop. Mae llawer o blant yn deall yn glir sut i drefnu'r ffrwythau mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf.

Mae bron pob un plentyn yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn y Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg heb anogaeth. Nid yw'r plant yn defnyddio offer TGCh yn hyderus oherwydd diffyg adnoddau technoleg gwybodaeth.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn ddysgwyr hapus a hyderus. Mae bron pob un ohonynt, mewn

perthynas â'u hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo yn drylwyr cyn bwyta'u byrbrydau, yfed llaeth a dŵr. Maent yn gwneud hynny heb lawer o anogaeth. Mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda fod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau a bod ymarfer corff yn eich cadw'n heini a chyflymu'ch calon.

Mae gan y rhan fwyaf agwedd dda at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar y staff. Maent yn ymddwyn yn dda. Maent yn ymgymryd yn llawn â phob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau priodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol drostynt eu hunain, er enghraifft wrth ofyn am fynd i'r tŷ bach a defnyddio cyfarpar yn eu tro.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac ag oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o anghenion pobl eraill ac yn rhannu adnoddau o'u gwirfodd. Maent yn awgrymu syniadau ynglŷn â beth a sut maent am ei ddysgu trwy drafodaethau â'r staff. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn dysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd priodol i ddatblygu ysgrifennu cynnar y plant a'u medrau rhifedd.

Yr arweinydd sy'n paratoi'r cynllunio ac yn ei drafod â'r staff. Mae'r cynllunio wedi ei seilio ar weithgareddau'r themâu. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant. Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio'n drwyadl ac mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun.

Mae'r amcanion dysgu yn cael eu cynllunio'n dda ac yn cael eu rhannu'n fanwl gyda'r grwpiau ffocws. Darperir gweithgareddau synhwyrol i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad creadigol a chorfforol.

Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n dda â'r plant yn y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn ddigonol. Nid oes digon o gyfleoedd ar gael i'r plant ac mae diffyg adnoddau TGCh yn y lleoliad. Mae gan blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel chwarae rôl wrth brynu ffrwythau, arbrofi gyda dŵr a thywod, paratoi teisen i'r adar, peintio a thrafod llyfrau gyda'i gilydd ac oedolion.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Darperir cyfleoedd addas hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, er enghraifft, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a storïau o Affrica. Mae gweithgareddau

tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a chodi eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

## Addysgu:  Da

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen.  Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae'r cynllunio yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff.  Mae'r addysgu'n ysgogol ar y cyfan.  Mae'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau fod y plant yn deall pwrpas y gweithgaredd.  Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol, sy'n sicrhau fod plant unigol yn cael cyfleoedd da i rannu profiadau ym mhob gweithgaredd sydd ar gael.

Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol.  Mae'r staff yn synhwyrol wrth ymyrryd ac maent yn caniatáu i'r plant i ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.  Mae'r staff yn modelu iaith dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant.  Mae'r staff yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt drafod stori a chwarae rôl.

Yn yr adeilad, mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau.  Nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol ac nid yw'r ardal tu allan yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol.

Mae gweithdrefnau asesu addas yn bodoli.  Mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n effeithiol.  Fodd bynnag, nid yw'r staff yn cwblhau asesiadau cyson sy'n cofnodi cynnydd plant o'u mannau cychwyn gyda digon o fanylder.  Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod iechyd a lles y plant yn dda.  Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol.  Mae'r lleoliad yn ymweld â'r gymuned trwy deithiau i'r llyn, y pentref a'r ganolfan llechi.  Mae'r defnydd o'r ardal leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.  Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn synhwyrol gan y staff.  Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo.  Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn dda wrth fwyta ffrwythau ac yfed diod o gwmpas y bwrdd bwyta.  Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ail-gylchu papur a bwyd.  Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd yn effeithiol.  Fodd bynnag, nid oes defnydd da o'r ardal tu allan, sy'n effeithio'r cyfleoedd i blant i ddysgu am blannu a thyfu planhigion.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.  Mae gan y staff gymwysterau addas a phrofiad da ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol.  Defnyddir arbenigedd

staff yn briodol wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drysau ar gau a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau fod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi. Mae'r staff yn trafod y rhain gyda'r asiantaethau priodol. Yr arweinydd yw'r cydlynwr anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus yn yr adeilad i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Nid yw'r ardal tu allan yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd oherwydd difrod gan stormydd diweddar. Felly, nid oes cyfleoedd cyfredol ar gael i'r plant i dyfu planhigion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau yn llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn synhwyrol. Mae'r arweinydd a'r staff yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer darparu profiadau diddorol i'r plant. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Nodir blaenoriaethau clir ar gyfer gwella trwy weithdrefnau hunanarfarnu cadarn. Mae prosesau da ar waith i sicrhau bod adnoddau ar gael i fodloni'r amcanion gwella.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r pwyllgor rheoli yn newydd a heb gael amser i sefydlu'n gadarn. Mae yn dechrau rhoi ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth ac mae ei systemau rheoli yn cwrdd â gofynion. Felly, mae cyfraniad y pwyllgor rheoli yn

datblygu ac yn darged i wella gan y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r arweinydd a'r staff yn adnabod y lleoliad yn dda. Maent yn gwybod beth y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r lleoliad yn hunanarfarnu'n effeithlon. Mae'n sicrhau cyswllt effeithiol rhwng yr hunan arfarniad a thargedau'r cynllun datblygu.

Mae tystiolaeth gadarn o arfarniadau buddiol ac effaith asiantaethau allanol ar y broses. Mae'r targedau priodol yn cynnwys datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth, datblygu'r ardal allanol, mireinio'r asesu, monitro'r addysgu a gwella rôl y pwyllgor rheoli.

Mae'r lleoliad yn arfarnu meysydd i'w gwella yn effeithiol yn erbyn cyfrifoldebau a graddfeydd amser yn y cynllun datblygu. Mae'r staff yn awyddus i dderbyn syniadau newydd ac i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio a awgrymir gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar wedi gwella'r addysgu a'r ardaloedd dysgu ac wedi sicrhau hunanarfarnu effeithiol. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth yr holl staff o'r meysydd yma ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r rhieni a'r gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi'r safonau gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff. Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae'r rhieni oll yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol leol, y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn dda.

Mae'r lleoliad yn elwa'n fawr o'r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i symud y lleoliad ymlaen ac wedi cyfrannu at safonau da, darpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth bwrpasol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn strategol ac yn cynllunio i'r dyfodol. Heblaw am dechnoleg gwybodaeth, mae'r adnoddau yn cael eu rheoli'n dda i gefnogi dysgu a gwelliannau yn y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau a hyfforddiant priodol. Mae'r pwyllgor rheoli a'r staff yn defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol er lles y plant.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wella cyflawniadau'r plant. Gwneir defnydd synhwyrol o'r holl adnoddau sydd ar gael. Maent yn hylaw i'r plant. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad i ddarparu ystod o brofiadau dysgu diddorol. Mae'r ddarpariaeth a brwdfrydedd yr arweinyddiaeth yn golygu bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 4 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 40% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 69% | 27% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 10 | 6 | 4 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 10 | 4 | 2 | 0 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 40% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 10 | 7 | 2 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 70% | 20% | 10% | 0% | | |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 9<br>90% | 0<br>0% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 3<br>30% | 6<br>60% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 30% | 3% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 5<br>50% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 9 | 3<br>33% | 5<br>56% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 31% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |